Dyddiadur

Dydd Llun
8:00yb: Gweddi am 8

Dydd Mawrth
8:00yb: Gweddi am 8
9:15yb: Boreol Weddi ar Facebook Live.

Dydd Mercher
8:00yb: Gweddi am 8
9:30yb: Cymun Bendigaid yn Eglwys y Santes Anne.
11:00am Cymun Bendigaid yn Eglwys y Drindod.
7:00yh: Cwrdd Gweddi dydd Mercher.

Dydd Iau
8:00yb: Gweddi am 8
9:15yb: Gwasanaeth Boreol Weddi Traddodiadol (Eglwys Y Drindod).

Dydd Gwener
8:00yb: Gweddi am 8
6:00yh: Cwrdd Gweddi dydd Gwener.

Dydd Sadwrn
8:00yb: Gweddi am 8

Dydd Sul
8:00yb: Gweddi am 8
9:30yb: Clwb Sul (ar gyfer plant o dan 12 oed) ar Zoom.

Tîm y Clerigwyr a chysylltiadau

Deon ardal: Parch. Mark Ansell, mark@stmikes.net
Ficeriaid: Parch. Cei Rees, cei@stmikes.net
Parch. Liz Rees, liz@stmikes.net
Curadiaid: Parch. Becky Evans, becky@stmikes.net
Parch. Dr Robert Wilkinson, robert@stmikes.net

Swyddfa ardal weinidogaeth Aberystwyth
Cewch gysylltu â'r staff i gyd ar 01970 617184.
swyddfa@stmikes.net
www.stmikes.org.uk/awa-ama

Eglwys Bro Aberystwyth
Bro Aberystwyth Church

Santes Fair | Sts. Anne St. Anne | Llanychaearn
Y Drindod Holy Trinity | Y Cil The Nave | St. Mihangel St. Michael

Dydd Sul 10fed o Hydref 2021

Actau: 22:22-29

Gwasanaethau Dydd Sul 17fed o Hydref

9:45yb	Eglwys y Santes Fair - Mawl y bore
9:45yb	Eglwys y Santes Anne – Gwasanaeth diolchgarwch
11:00yb	Eglwys y Drindod Sanctaidd – Cymun Bendigaid
11:00yb	Eglwys Sant Mihangel - Mawl y bore
11:15yb	Eglwys Llanychaearn - Cymun Bendigaid
5:00yh	Hwyrol Weddi (Ar-lein)
6:00yh	Y Cil (Gwasanaeth ar-lein),

Mae newyddlen ein AWL ar gael yn Saesneg hefyd. Gofynnwch os ydych chi am gael copi.

Newyddion a Digwyddiadau

Os hoffech chi rannu sut mae Duw wedi bod yn gweithio yn eich bywyd yn ddiweddar, rhowch wybod i ni yn swyddfa@stmikes.net

Cofiwch eich bod chi'n gallu eistedd ar bwys eich ffrindiau yn ein heglwysi nawr. Bydd hynny'n ein helpu ni i ddarparu digon o le i bawb. Ond os ydych chi am gadw sedd i'ch hunan, cymerwch arwydd *Rhowch le i mi* o gefn yr eglwys a'i roi ar eich bwys.

O'r dydd Sul bydd y rheolau Cofid yn llacio ychydig eto yn ein heglwysi. Bydd ardal ymhob eglwys heb gyfyngiadau seddi, tra bydd ardal arall wedi'i neilltuo ar gyfer pobl sydd am ychydig mwy o le o'u cwmpas. Bydd rhaid bwcio mewn o flaen llaw ar gyfer gwasanaethau Eglwys Sant Mihangel tan diwedd mis Hydref. Bydd yn bosibl derbyn cymun wrth yr allor yn yr eglwysi o ddydd Sul ymlaen, i'r rhai sy'n hapus i'w wneud, ond ni fyddwn ni'n rhannu'r gwin gyda'r cynulleidfa ar hyn o bryd. Mae defnydd o fygydau wyneb yn dal i fod yn orfodol mewn gwasanaethau o dan reolau llywodraeth Cymru, oni bai am y rhai sydd wedi'u heithrio.

Bu farw **Sue Thorburn**, y bydd llawer ohonom yn ei gofio o *Alpha* a *Mature Munch*, yr wythnos diwethaf. Gweddïwch dros ei theulu os gwelwch yn dda wrth iddynt alaru.

Oes gennych chi gwestiynau am fywyd? Ymunwch â ni ar gyfer ein **Cwrs *Alpha*** wyneb yn wyneb, gyda swper, annerchiad ac amser i sgwrsio. Oes gennych chi gwestiynau am fywyd? Ymunwch â ni ar gyfer ein Cwrs Alpha wyneb yn wyneb, gyda swper, sgwrs ac amser i sgwrsio. Mae Alpha ar ddydd Mawrth am 7pm yn St Mike's. Gallwch gofrestru yma https://aberparish.churchsuite.com/events/9jyxbgef neu drwy office@stmikes.net neu 01970 617184.am 7yh yn St Mike's. Gallwch gofrestru yma https://aberparish.churchsuite.com/events/9jyxbgef neu drwy swyddfa@stmikes.net neu 01970 617184.

Dydd Sul y Cofio: Eleni bydd Gwasanaeth Coffa'r dref yn cael ei gynnal yn Eglwys y Drindod Sanctaidd am 9:15yb, ac wedyn cynhelir gwasanaeth byr o amgylch y Gofeb Ryfel am 10:50yb.

"Helo, **Beth** ydw i, yr intern newydd. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf rydw i wedi bod yn mynychu eglwys Sant Mihangel fel myfyrwraig a oedd yn astudio Bioleg Môr a Dŵr Croyw yn y brifysgol. Ar ôl gorffen fy ngradd, rwyf wedi dechrau interniaeth gyda'r Ardal Weinidogaeth yma yn Aberystwyth. Wrth gwrs, mae fy ngradd yn fy ngwneud yn fwy na chymwys ar gyfer fy interniaeth newydd(!) ... rwy'n siŵr os fydd llifogydd yn yr eglwys efallai y byddaf yn ddefnyddiol! Yng nghyd â gweithio i'r eglwys rwy'n cadw gwenyn, yn chwarae'r piano a'r ffidil; a'r harmonica (er mawr siom i fy nghydletywyr) Rwyf am helpu gyda bywyd eglwysig lle bynnag y gallaf, yn benodol gweinidogaeth gweddi, gwaith plant a'r gwaith gyda'r myfyrwyr. Rwy'n gobeithio fy mod i'n gallu ddatblygu fy ffydd a dysgu mwy am waith yr eglwys yn ystod fy amser yma. Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod ac yn gweithio'n agos gyda chi i gyd."

Darlleniadau dyddiol a gweddïau

Dydd Sul: 2 Brenhinoedd 6: 24-7:2 Teyrngarwch yng ngwyneb marwolaeth.
Dydd Llun: 2 Brenhinoedd 7: 3-17 Duw yn cyflogi'r gwrthodedig mewn cymdeithas.
Dydd Mawrth: 2 Brenhinoedd 8: 7-15 Duw yn defnyddio cynllwyn creulon Hasael.
Dydd Mercher: 2 Brenhinoedd 8: 16-22 Mae cynfas Duw yn rhy fawr i'w gweld.
Dydd Iau: 2 Brenhinoedd 11: 1-12 Ni rhwystrir Duw.
Dydd Gwener: 2 Brenhinoedd 11: 13-21 "Dy ewyllys di a wneler "
Dydd Sadwrn: 2 Brenhinoedd 12: 1-15. Mae gras Duw'n aml yn ein syfrdanu.

- Diolch i Dduw am ein cymdeithas ac am y gweithwyr rydym yn dibynnu arnynt yn ddyddiol.
- Gweddiwch dros gweithwyr ein siopau, trafnidiaeth a'r sefydliadau ariannol.
- Gweddiwch dros yr arweinwyr gwleidyddol sy'n ceisio gwella diffygion yn ein cymdeithas.
- Diolch i Dduw am y syniad o degwch a ddisgwyliwn.
- Gweddiwch dros y rhai sydd wedi cael cam gan gyfreithiau'n gwlad a gweddiwch dros y rhai sy'n eu gweithredu.
- Gweddiwch dros y rhai sy'n byw mewn ofn a'r rhai sydd wedi dioeddef anhegwch.
- Gweddiwch dros y rhai sy'n gyfrifol am gywiro methiannau yn ein cyfundrefnau.
- Diolch i Dduw ein bod yn medru dibynnu arno'n llwyr.

Colect:
O Dduw, gan na allwn hebot ti dy fodloni di;
yn dy drugaredd caniatâ fod i'th Ysbryd Glân ym mhob peth gyfarwyddo a llywio ein calonnau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**